



Dogfen Reoleiddio
POLISIŌAU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Polisi Ymgynghori

Mehefin 2017

Rheoli ac Adolygu Fersiynau

Cymeradwywyd y fersiwn (2) hon o Bolisi Ymgynghori Cymwysterau Cymru ar 20 Mehefin 2017

Mae Adran 47(3) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf"), yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi datganiad o'n polisi mewn perthynas ag ymgynghori. Byddwn yn adolygu datganiadau polisi a baratowyd dan Adran 47 o'r Ddeddf, ac os byddwn o'r farn ei bod yn briodol, yn sgil adolygiad, byddwn yn paratoi datganiadau diwygiedig. Byddwn yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf bob 3 blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir yr adolygiad nesaf erbyn mis Mawrth 2020 fan bellaf. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org. Noder mai dim ond sylwadau ynglŷn â chyffredinolrwydd y ddogfen hon, yn hytrach na sefyllfaoedd penodol, a gaiff eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

CYNNWYS

EGWYDDORION CYFFREDINOL Y POLISI YMGYNGHORI

DIFFINIO YMGYNGHORI

PRYD RYDYM YN CYNNIG CYNNAL YMGYNGHORIADAU

SUT RYDYM YN CYNNIG CYNNAL YMGYNGHORIADAU

Egwyddorion Cyffredinol y Polisi Ymgynghori

1. Mae'r datganiad polisi hwn ar gyfer pob rhanddeiliad sydd â diddordeb yng ngwaith Cymwysterau Cymru. Fel sy'n ofynnol gan Adran 47(3) (*Datganiad polisi a datganiad am ymgynghori*) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf"), mae'r datganiad yn nodi amgylchiadau lle rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriad ynglŷn ag arfer unrhyw un o'n swyddogaethau, a'r modd rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriad o'r fath. Bwriedir i'r polisi hwn ddarparu eglurder i randdeiliaid ar ein dull o weithredu tra'n darparu hyblygrwydd i ni gyflawni ein swyddogaethau statudol mewn modd ymatebol.
2. Rydym yn ymrwymedig i ymgynghori mewn ffordd dryloyw ac ystyrllon lle y bo'n briodol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau o safon uchel. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd y math o ymgynghoriad a'i faint yn gymesur ag effaith bosibl y cynnig ac yn ystyried addasrwydd a phriodoldeb dulliau ymgynghori gwahanol er mwyn cael cyfraniadau ystyrllon gan randdeiliaid. Nid yw'n bwriadu bod yn gyfarwyddol o ran yr amgylchiadau lle y byddwn yn ymgynghori er mwyn sicrhau hyblygrwydd a gwaith ymgynghori priodol, wedi'i dargedu. Dylid nodi nad oes dyletswydd gyffredinol ar gyrf cyhoeddus i ymgynghori a gall fod achosion lle nad yw'n briodol i ni ymgynghori.
3. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio yn ein rôl fel rheoleiddiwr a byddwn yn defnyddio ymgynghori fel rhan o sail dystiolaeth ehangach gan gynnwys adborth o weithgareddau ymgysylltu, gofynion deddfwriaethol, data, costau ac ystyriaethau eraill yng ngoleuni'r wyth mater y mae dyletswydd arnom i roi sylw iddynt o dan Adran 3(2) (*Prif nodau Cymwysterau Cymru*) o'r Ddeddf wrth ddatblygu ein strategaethau. Bydd achlysuron, yn ein rôl fel rheoleiddiwr, pan na fydd yn briodol ymgynghori ar rai materion.
4. Bydd ymgynghoriadau ond yn cael eu cynnal pan fydd cynnig wedi cyrraedd cam lle nad yw penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud. Byddwn yn ystyried ac yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd o ymgynghoriadau yn gydwytbodol i lunio dyfarniadau priodol wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn cydnabod pryderon a byddwn yn rhoi adborth ar y ffordd y dylanwadodd mewnbyn gan randdeiliaid ar y canlyniad. Wrth gyfathrebu ein penderfyniadau, byddwn yn

rhoi rhesymeg dros y penderfyniad a gymerwyd. Caiff canlyniadau ymgynghori eu hystyried o fewn cyd-destun Prif Nodau Cymwysterau Cymru, sef:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
 - Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.
5. Nid yw'r polisi hwn yn ymdrin â phenderfyniadau ffurfiol a wneir gennym mewn perthynas ag un corff dyfarnu neu fwy a'u cymwysterau.

Diffinio Ymgynghori

6. Rydym yn ceisio barn ein rhanddeiliaid yn rheolaidd er mwyn helpu i ddatblygu ein gwaith a rhoi tystiolaeth i ni. Yn yr un modd, rydym yn rhoi gwybodaeth i'n rhanddeiliaid ac yn ei chyfleu drwy amrywiaeth o fforymau a dulliau. Mae hyn y golygu ein bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid fel y bo'n briodol. Er mwyn gwahaniaethu'n glir rhwng ymgynghori ac ymgysylltu, diffinnir y ddau derm isod.
7. Yn achos ymgynghori, golygwn y broses o ofyn yn ffurfiol am farn rhanddeiliaid ar gwestiwn, cynnig neu gyfres o opsiynau, a gwrando ar y farn honno. Nid oes rhwymedigaeth ar sefydliad sydd wedi cynnal ymgynghoriad i fod yn rhwym wrth y farn a fynegwyd, ond rhaid ystyried yr ymatebion yn briodol a gallant ddylanwadu ar benderfyniadau, polisiau a chymau gweithredu'r sefydliad.
8. Yn achos ymgysylltu, golygwn y broses barhaus o ddatblygu cydberthnasau a phartneriaethau dwy ffordd â rhanddeiliaid sydd o fudd i'r ddwy ochr. Mae ymgysylltu yn helpu i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth am ein cynlluniau ar gam cynnar a'u bod yn cael cyfle i rannu eu barn.
9. Mae'r polisi hwn yn amlinellu pryd a sut rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriadau.

Pryd rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriadau

10. Yn amodol ar yr Egwyddorion Cyffredinol a amlinellir uchod, o safbwynt arfer unrhyw un o'n swyddogaethau, rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriad yn yr amgylchiadau canlynol:
- i. Datblygu polisi a all effeithio ar gynlluniau busnes neu gyllid cyrff dyfarnu;
 - ii. Strategaeth reoleiddio;

- iii. Newid proses sylweddol.
11. Mae'r amgylchiadau a amlinellwyd uchod yn feysydd dangosol yn hytrach na meysydd wedi'u rhagnodi y bydd angen ymgynghori arnynt bob amser. Caiff y gofyniad i ymgynghori ei bennu yn unol â'r meini prawf yn y polisi hwn. Gall datganiadau polisi eraill hefyd amlinellu gofynion penodol pellach ar gyfer ymgynghori.
12. Wrth benderfynu p'un a ddylid ymgynghori, byddwn yn ystyried nifer o feini prawf, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
- i. p'un a yw cynnig ar gam ffurfiannol a fydd yn caniatáu ymgynghori ystyrllon;
 - ii. p'un a yw cynnig yn debygol o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd, er enghraifft lle ystyrir y caiff effaith sylweddol ar ddysgwyr neu y bydd yn dylanwadu ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru;
 - iii. effaith cynnig ar randdeiliaid, er enghraifft fel y nodir drwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol;
 - iv. lefel y newid arfaethedig (gan gynnwys ei faint, ei raddau a'i effaith);
 - v. y math o ymgysylltu sydd ei angen ar randdeiliaid er mwyn rhoi eu barn ar gynnig penodol;
 - vi. p'un a ystyrir y byddai ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth ddigonol i ddylanwadu ar gynnig;
 - vii. unrhyw gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â ffactorau allanol, fel gofynion deddfwriaethol neu benderfyniadau a wnaed gan gyrff allanol a allai effeithio ar unrhyw gynnig neu ein gallu i ymgynghori'n ystyrllon.
13. Wrth asesu'r meini prawf hyn, byddwn yn fanwl ac yn gymesur yn ein dull gweithredu er mwyn sicrhau nad yw ein camau gweithredu yn rhy feichus, i randdeiliaid nac i ninnau, ac nad ydynt yn rhwystro Cymwysterau Cymru rhag gweithredu'n effeithiol yn ddiangen.

Sut rydym yn cynnig cynnal ymgynghoriadau

14. Mae'r modd rydym yn cynnig ymgynghoriadau yn cynnwys cwestiynau o ran â phwy fyddem yn ymgynghori, y dulliau y byddem yn eu defnyddio, ystyriaethau ynghylch hygyrchedd ymgynghoriadau a'r dulliau o gyflwyno adroddiadau ar unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir gennym.
15. Pan fyddwn yn cynllunio ymgynghoriad, byddwn yn ystyried:

- i. Amserlenni realistig er mwyn rhoi amser i randdeiliaid gyflwyno ymatebion ystyriol a rhoi amser i ni ddadansoddi ac ystyried yr ymatebion a gawn yn gydwybodol;
 - ii. Yr angen i ddarparu gwybodaeth ddigonol i randdeiliaid i'w galluogi i gyflwyno ymatebion ystyriol;
 - iii. Dibyniaethau eraill ac effaith oedi wrth weithredu polisi;
 - iv. Newydd-deb a chymhlethdod y cynnig.
16. Wrth gynllunio ymarferion ymgynghori byddwn yn adolygu'r effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n andwyol) y byddai'r cynnig sy'n cael ei ystyried yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.
17. Byddwn yn ystyried ac yn gofyn hefyd am unrhyw effaith y byddai'r cynnig sy'n cael ei ystyried yn ei chael ar unigolion sy'n rhannu nodweddion¹ o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
18. Wrth benderfynu â phwy i ymgynghori, byddwn yn ceisio sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cynnwys yr ystod lawn o randdeiliaid fel y'u nodir drwy Asesiadau Effaith Rheoleiddiol neu ddadansoddiadau eraill ac yn adolygu ein strategaeth a'u dulliau ymgynghori â rhanddeiliaid yn barhaus.
19. Bydd ein hymgyngoriadau bob amser yn cynnwys dogfen ysgrifenedig ddwyieithog yn amlinellu'r cynnig neu'r opsiynau rydym yn ymgynghori arnynt. Byddant fel arfer yn cynnwys cyfres o gwestiynau (er enghraifft ar ffurf holiadur ar-lein neu ganllaw cyfweld) ynglŷn â'r cynnig neu'r opsiynau yn ogystal â chyfleoedd i gyflwyno ymateb ysgrifenedig mewn fformat amgen. Bydd pob ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.
20. Yn ogystal, gallwn ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau a dulliau ymgynghori, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
- i. holiaduron;
 - ii. cyfweliadau;
 - iii. e-bost neu fforymau ar-lein;
 - iv. cynadleddau neu weithdai;
 - v. gweminarau;
 - vi. gweithgorau;
 - vii. grwpiau ffocws;
 - viii. y cyfryngau cymdeithasol.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4>

21. Wrth benderfynu ar ddulliau priodol ar gyfer ymgynghori, byddwn yn ystyried y canlynol:

- i. y dull sydd fwyaf tebygol o gasglu gwybodaeth a/neu ddata sy'n ystyrion, yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn ddiuedd;
- ii. cam ffurfiannol y broses o ddatblygu'r cynnig, yn enwedig:
 - cyfranogiad blaenorol rhanddeiliaid;
 - y gofyniad i lywio datblygiad y cynnig neu i roi sylwadau ar gynnig penodol neu agweddau ar y cynnig hwnnw;
- iii. diben bwriadedig yr ymgynghoriad, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - cael arbenigedd a safbwyntiau amgen;
 - nodi effeithiau anfwriadol a phroblemau ymarferol;
 - profi opsiynau;
 - y baich disgwylidig y gallai dull penodol ei roi ar randdeiliaid neu ninnau;
- iv. effaith y materion sy'n cael eu hystyried fel y pennwyd gan unrhyw Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol neu Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd;
- v. yr amrywiaeth o randdeiliaid y mae angen ymgynghori â nhw a'r ffordd orau o'u cyrraedd er mwyn iddynt roi eu barn (er enghraifft, drwy ddefnyddio dulliau mwy hygyrch ar gyfer pobl ifanc wrth dargedu dysgwyr);
- vi. yr amserlen a'r adnoddau sydd ar gael.

22. Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori ac unrhyw ddeunyddiau ategol, megis holiadur, mor hygyrch â phosibl. Byddwn hefyd yn ceisio darparu pob dogfen mewn fformatau amgen (e.e. print bras, braille neu ieithoedd amgen) ar gais.

Ar ôl i ymgynghoriad gau

23. Byddwn yn dadansoddi ac yn ystyried pob ymateb a gawn fel rhan o'r ymgynghoriad yn gydwobodol. Caiff adroddiad cryno ar y canfyddiadau ei gyhoeddi ar ein gwefan. Lle y bo'n briodol, bydd yr adroddiad hwn yn nodi tueddiadau mewn ymatebion ac yn cysylltu'r rhain â nodweddion ymatebwyr.

24. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn, os ystyrir bod hyn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Gofynnir i ymatebwyr am eu caniatâd i gyhoeddi eu henw neu enw eu sefydliad, a'u tref bost gyferbyn â'u hymatebion. Caiff yr

holl ddata a ddelir gan Cymwysterau Cymru eu cadw yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

25. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ganlyniadau ymgynghoriadau ar ein gwefan ac yn rhoi'r rhesymeg dros ein penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad. Pan fyddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ymgynghoriadau, byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau adborth i gefnogi unrhyw adroddiadau ffurfiol. Gall y dulliau hyn gynnwys:

- i. cyfarfodydd cyhoeddus;
- ii. cynadleddau;
- iii. gweminarau;
- iv. y cyfryngau cymdeithasol.